Annwyl Gwsmer

**<u>Gwasanaeth Symudol Cricieth</u>**

Er mwyn dal i ddarparu gwasanaethau Swyddfa'r Post i'r cymunedau, pan nad oedd modd defnyddio'r adeiladau yn ystod Covid, cafodd Gwasanaeth Symudol ei gyflwyno gennym yn Llanbedr a Thal-y-sarn. Bydd y Gwasanaeth Symudol yn Llanbedr yn dod i ben ddydd Llun 21 Mehefin 2021 a bydd y Gwasanaeth Symudol yn Nhal-y-sarn yn dod i ben ddydd Mercher 23 Mehefin 2021.

Rydym wrth ein bodd yn rhoi gwybod i chi y byddwn yn adfer gwasanaethau Swyddfa'r Post i'r cymunedau uchod trwy gyflwyno Gwasanaeth Allgymorth Gwesteiol. Mae'n ddrwg gennym am unrhyw anhwylustod pan fu cau dros dro.

Bydd Gwasanaeth Allgymorth Gwesteiol Llanbedr yn agor mewn lleoliad newydd, sef Deli ac Ystafelloedd Te Wenallt, ddydd Mercher 30 Mehefin 2021.

Bydd Gwasanaeth Allgymorth Gwesteiol Tal-y-sarn yn agor yn y lleoliad blaenorol, sef Canolfan Gymuned Tal-y-sarn, ddydd Llun 28 Mehefin 2021.

Yn dilyn cau Swyddfa Bost Ffestiniog dros dro, byddwn yn adfer gwasanaethau Swyddfa'r Post i'r gymuned trwy gyflwyno Gwasanaeth Symudol dros dro wrth i ni ddal i chwilio am ateb parhaol. Bydd y Gwasanaeth Symudol yn dechrau ddydd Llun 28 Mehefin 2021.

Yn Swyddfa'r Post rydym drwy'r amser yn chwilio am ffyrdd o adnewyddu ein rhwydwaith a gwneud yn siŵr ein bod yn ateb gofynion ein cwsmeriaid. Felly, mae'n dda gennym roi gwybod i chi ein bod hefyd yn bwriadu cyflwyno Gwasanaeth Symudol newydd i gymunedau Llanystumdwy a Gellilydan. Bydd y Gwasanaeth Symudol newydd yn Llanystumdwy yn dechrau ddydd Mawrth 29 Mehefin 2021 a bydd y Gwasanaeth Symudol yng Ngellilydan yn dechrau ddydd Llun 28 Mehefin 2021.

Mae'n dda gennym roi gwybod i chi fod y Postfeistr o Swyddfa Bost Cricieth yn barod i redeg y Gwasanaethau Symudol a'r Gwasanaethau Allgymorth Gwesteiol, sef y ffordd orau bosibl o adfer gwasanaethau Swyddfa'r Post i'r cymunedau hyn.

Er mwyn gallu cynnal y Gwasanaethau Symudol a'r Gwasanaethau Allgymorth Gwesteiol, bydd rhai newidiadau i'r gwasanaethau presennol yn Efailnewydd, Llanaelhaearn, Bryncir, Llithfaen, Pant-glas, Clynnog Fawr, Aber-erch, Minffordd, Borth-y-gest, Nasareth, Llanfrothen, Garndolbenmaen, Llanllyfni, Y Fron, Rhosgadfan, Llangybi, Edern a Thalsarnau o'r wythnos yn dechrau ddydd Llun 28 Mehefin 2021.

Mae'r manylion llawn am y newidiadau hyn ar ddiwedd y llythyr hwn. Hefyd, caiff posteri eu gosod yn lleol fel bod cwsmeriaid yn gwybod am y newidiadau.

Buom yn gweithio'n galed yn chwilio am ffordd o adfer gwasanaethau yn lleol. Mae gwasanaeth symudol, sef Swyddfa Bost deithiol mewn cerbyd pwrpasol sy'n dod â gwasanaethau a nwyddau Swyddfa'r Post i gymunedau heb ddibynnu ar adeilad, yn ffordd dda o gynnal gwasanaeth i gymunedau bach.

Post Office Limited is registered in England and Wales. Registered No. 2154540.
Registered Office Finsbury Dials, 20 Finsbury Street, London. EC2Y 9AQ
Post Office and the Post Office logo are registered trade marks of Post Office Limited
Cofrestwyd Swyddfa'r Post Cyf yng Nghymru a Lloegr. Rhif Cofrestredig 2154540
Swyddfa Gofrestredig yn Finsbury Dials, 20 Finsbury Street, Llundain. EC2Y 9AQ.
Mae Swyddfa'r Post a logo Swyddfa'r Post yn nodau masnach cofrestredig i Swyddfa'r Post Cyfyngedig

Byddwn yn gosod posteri yn lleol i rannu'r newyddion da â'n cwsmeriaid. Os ydych yn gynrychiolydd lleol, byddai o gymorth pe gallech rannu'r wybodaeth hon ag unrhyw grwpiau neu sefydliadau lleol yn eich cymuned – er enghraifft ar hysbysfyrddau, ymhlith elusennau lleol ac mewn meddygfeydd – er mwyn helpu ein cwsmeriaid a'ch etholwyr chi i ddeall yr hyn sy'n digwydd i'r Swyddfa Bost yn y gymuned leol. Os hoffech gael cyflenwad o'r posteri hyn, rhowch wybod i ni, os gwelwch yn dda.

Rydym yn awyddus i adfer gwasanaethau i'r gymuned hon cyn gynted â phosibl, ac felly rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â'n cynlluniau. Fodd bynnag, byddem yn croesawu awgrymiadau am agweddau penodol ar y newid, yn enwedig ynglŷn â'r canlynol:

- Pa mor addas, yn eich barn chi, yw'r lleoliad newydd a pha mor hawdd yw cyrraedd yno?
- A oes gennych unrhyw sylwadau am hygyrchedd y tu mewn i'r adeilad newydd?
- A oes gennych unrhyw sylwadau am y dyddiau a'r oriau agor?

Byddwn yn derbyn sylwadau tan 20 Gorffennaf 2021. Ni fyddwn yn rhoi ymateb yn unigol i chi, ond bydd unrhyw sylwadau a dderbynnir yn cael eu hystyried wrth i ni wneud ein penderfyniadau terfynol.

Mae'r manylion am y gwasanaeth newydd ar gael ar ddiwedd y llythyr hwn. I gael rhagor o wybodaeth neu i rannu eich sylwadau, byddwch cystal ag ymweld â'n Canolfan Ymgynghori trwy'r ddolen isod. Yna defnyddiwch y ffwythiant chwilio i gael y manylion ymgysylltiad ar gyfer y gwasanaeth hwn, naill ai trwy enw'r gwasanaeth, y cod post neu'r cod unigryw **164604.**

[postofficeviews.co.uk](postofficeviews.co.uk)

Unwaith y cwblheir y cynlluniau, byddwn yn gosod poster yn lleol a rhoddir gwybodaeth ar ein Canolfan Ymgynghori i amlinellu'r prif sylwadau a dderbyniwyd a'n hymateb iddynt. Os bydd rhaid newid y dyddiad agor am resymau annisgwyl, bydd posteri'n cael eu gosod yn lleol er mwyn rhoi gwybod i gwsmeriaid.

Mae ein hymgysylltu yn unol â'n Hegwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned. Mae copi ar gael ar ddiwedd y llythyr hwn.

Mawr obeithiwn y byddwch yn cefnogi'r gwasanaeth newydd hwn.

Yr eiddoch yn gywir

*Carol Williams*

Carol Williams
Arweinydd Darpariaeth Rhwydwaith

**Sut i gysylltu â ni:**


postofficeviews.co.uk
comments@postoffice.co.uk
Ffôn: 03452 66 01 15
Ffôn Testun: 03457 22 33 55

FREEPOST Your Comments
**Dyma'r cyfan sydd angen ei roi ar eich amlen er mwyn i'ch llythyr ein cyrraedd.**


Eisiau rhoi eich barn i ni yn y fan a'r lle – Sganiwch yma.

Os nad oes gennych sganiwr cod QR ar eich ffôn, gallwch gael hyd i un yn eich storfa apiau.

Mae eitemau a anfonir trwy Freepost yn cymryd dau ddiwrnod gwaith i gyrraedd, ac felly dylai ymatebion a ddanfonir trwy Freepost gael eu postio mewn digon amser i gyrraedd cyn diwedd y cyfnod ymgysylltu. Nid yw diwrnodau gwaith yn cynnwys dydd Sadwrn na dydd Sul. Ni fydd ymatebion a dderbynnir ar ôl y dyddiad cau yn cael eu hystyried.

**I gael yr wybodaeth hon mewn fformat gwahanol, er enghraifft, print bras, sain neu braille, ffoniwch 03452 66 01 15 neu 03457 22 33 55 (ffôn testun).**

**Manylion am y gwasanaethau Allgymorth Gwesteiol newydd: Llanbedr**

**Swyddfa Bost Llanbedr**
Deli ac Ystafelloedd Te Wenallt
Llanbedr
Gwynedd
LL45 2LD

**Yr oriau agor newydd**

| | |
|---|---|
| **Mercher** | **09:30 – 11:30** |

**Gwasanaethau**
Bydd dewis o wasanaethau Swyddfa'r Post ar gael o hyd.
Gall cwsmeriaid ddal i gasglu budd-daliadau mewn arian parod trwy ddefnyddio ein gwasanaethau bancio beunyddiol neu gyfrif cerdyn Swyddfa'r Post.

**Mynediad a chyfleusterau**
Mae yna ris isel a drws llydan wrth y fynedfa i Deli ac Ystafelloedd Te Wenallt. Bydd ramp symudol ar gael ar gais er mwyn helpu cwsmeriaid llai abl.
Y tu mewn, bydd dolen glyw a lle i gadair olwyn.

**Trafnidiaeth/parcio**
Mae modd parcio ar y ffordd y tu allan i Deli ac Ystafelloedd Te Wenallt – a hefyd gerllaw.

**Llwybr**
Mae'r gwasanaeth Swyddfa'r Post Allgymorth Gwesteiol newydd hwn ar draws y ffordd o'r gwasanaeth Swyddfa'r Post blaenorol.

**Manylion am y gwasanaeth Allgymorth Gwesteiol newydd: Tal-y-sarn**

**Swyddfa Bost Tal-y-sarn**
Canolfan Gymuned Tal-y-sarn
Heol yr Orsaf
Tal-y-sarn
Caernarfon
Gwynedd
LL54 6HL

**Yr oriau agor newydd**

| | |
|---|---|
| **Llun** | **12:00 – 16:00** |
| **Mawrth** | **13:00 – 16:00** |
| **Mercher** | **13:00 – 16:00** |
| **Iau** | **13:00 – 16:00** |

**Gwasanaethau**
Bydd dewis o wasanaethau Swyddfa'r Post ar gael o hyd.
Gall cwsmeriaid ddal i gasglu budd-daliadau mewn arian parod trwy ddefnyddio ein gwasanaethau bancio beunyddiol neu gyfrif cerdyn Swyddfa'r Post.

**Mynediad a chyfleusterau**
Bydd y mynediad ar hyd ramp â chanllaw a thrwy ddrws llydan wrth y fynedfa i Ganolfan Gymuned Tal-y-sarn.
Y tu mewn, bydd dolen glyw a lle i gadair olwyn.

**Trafnidiaeth/parcio**
Mae maes parcio penodol y tu allan i Ganolfan Gymuned Tal-y-sarn.

**Llwybr**
Mae'r gwasanaeth Swyddfa'r Post Allgymorth Gwesteiol newydd hwn yn yr adeilad blaenorol yng Nghanolfan Gymuned Tal-y-sarn.

**Manylion am y Gwasanaeth Symudol dros dro: Ffestiniog**

**Swyddfa Bost Ffestiniog**
Yn y Maes Parcio
Oddi ar Heol Blaenau
Ffestiniog
Blaenau Ffestiniog
Gwynedd
LL41 4LR

**Yr oriau agor newydd**

| | |
|---|---|
| **Llun** | **13:45 – 14:45** |

**Gwasanaethau**
Bydd dewis o wasanaethau Swyddfa'r Post ar gael o hyd. Gall cwsmeriaid ddal i gasglu budd-daliadau mewn arian parod trwy ddefnyddio ein gwasanaethau bancio beunyddiol neu gyfrif cerdyn Swyddfa'r Post.

**Mynediad a chyfleusterau**
Mae yna ris i mewn i'r cerbyd symudol, ond mae tinbren electronig ar gael ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn neu bobl ag anableddau. Bydd dolen glyw y tu mewn.

**Trafnidiaeth/parcio**
Mae modd parcio yn y maes parcio oddi ar Heol Blaenau.

**Llwybr**
Mae'r gwasanaeth Swyddfa'r Post Symudol hwn tua 140 metr o'r gangen flaenorol, ar hyd tir amrywiol ei natur.

**Manylion am y Gwasanaeth symudol newydd: Llanystumdwy**

**Swyddfa Bost Llanystumdwy**
Maes Parcio Cae'r Ffynnon
Llanystumdwy
Cricieth
Gwynedd
LL52 0SF

**Yr oriau agor newydd**

| | |
|---|---|
| **Mawrth** | **09:00 – 09:45** |

**Gwasanaethau**
Bydd dewis o wasanaethau Swyddfa'r Post ar gael o hyd. Gall cwsmeriaid ddal i gasglu budd-daliadau mewn arian parod trwy ddefnyddio ein gwasanaethau bancio beunyddiol neu gyfrif cerdyn Swyddfa'r Post.

**Mynediad a chyfleusterau**
Mae yna ris i mewn i'r cerbyd symudol, ond mae tinbren electronig ar gael ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn neu bobl ag anableddau. Bydd dolen glyw y tu mewn.

**Trafnidiaeth/parcio**
Mae modd parcio ym Maes Parcio Cae'r Ffynnon.

**Manylion am y Gwasanaeth Symudol newydd: Gellilydan**

**Swyddfa Bost Gellilydan**
Yn y Maes Parcio
Teras Minffordd
Gellilydan
Blaenau Ffestiniog
Gwynedd
LL41 4EA

**Yr oriau agor newydd**

| | |
|---|---|
| **Llun** | **12:00 – 13:00** |

**Gwasanaethau**
Bydd dewis o wasanaethau Swyddfa'r Post ar gael o hyd. Gall cwsmeriaid ddal i gasglu budd-daliadau mewn arian parod trwy ddefnyddio ein gwasanaethau bancio beunyddiol neu gyfrif cerdyn Swyddfa'r Post.

**Mynediad a chyfleusterau**
Mae yna ris i mewn i'r cerbyd symudol, ond mae tinbren electronig ar gael ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn neu bobl ag anableddau. Bydd dolen glyw y tu mewn.

**Trafnidiaeth/parcio**
Mae modd parcio yn y Maes Parcio yn Nheras Minffordd.

**Manylion y newidiadau i'r Gwasanaethau Symudol presennol: Efailnewydd**

**Gwasanaeth Symudol Efailnewydd, Y Maes Parcio ger Lôn Boduan, Teras Bodegroes, Efailnewydd, Pwllheli, Gwynedd, LL53 5TL**

**Yr oriau agor presennol**

| | |
|---|---|
| Llun | **14:45 – 15:45** |
| Iau | **14:00 – 14:45** |

**Yr oriau agor newydd**

| | |
|---|---|
| Mawrth | **15:05 – 16:05** |
| Mercher | **16:15 – 17:00** |
| Iau | **11:10 – 12:10** |
| Gwener | **16:15 – 17:00** |

**Manylion y newidiadau i'r Gwasanaethau Symudol presennol: Llanaelhaearn**

**Gwasanaeth Symudol Llanaelhaearn, y gilfan ym mhen uchaf Llanaelhaearn, Cyf. Grid OS SH358447, Llanaelhaearn, Caernarfon, Gwynedd, LL54 5AG**

**Yr oriau agor presennol**

| | |
|---|---|
| Llun | **12:00 – 12:45** |
| Iau | **09:00 – 10:00** |

**Yr oriau agor newydd**

| | |
|---|---|
| Mawrth | **11:15 – 12:00** |
| Iau | **14:05 – 14:50** |

**Manylion y newidiadau i'r Gwasanaethau Symudol presennol: Bryncir**

**Gwasanaeth Symudol Bryncir, Maes Parcio Tilestop, Bryncir, Garndolbenmaen, Gwynedd, LL51 9LX**

**Yr oriau agor presennol**

| | |
|---|---|
| Mawrth | **10:00 – 10:45** |
| Mercher | **16:15 – 17:00** |

**Yr oriau agor newydd**

| | |
|---|---|
| Mawrth | **09:00 – 09:45** |
| Iau | **16:15 – 17:00** |

**Manylion y newidiadau i'r Gwasanaethau Symudol presennol: Llithfaen**

**Gwasanaeth Symudol Llithfaen, Y Ganolfan, Llithfaen, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6NH**

**Yr oriau agor presennol**

| | |
|---|---|
| Llun | **13:30 – 14:30** |
| Iau | **11:15 – 12:00** |

**Yr oriau agor newydd**

| | |
|---|---|
| Mawrth | **12:35 – 13:35** |
| Mercher | **15:00 – 16:00** |
| Iau | **12:30 – 13:30** |
| Gwener | **15:15 – 16:00** |

**Manylion y newidiadau i'r Gwasanaethau Symudol presennol: Pant-glas**

**Gwasanaeth Symudol Pant-glas, Drws Nesaf i'r Capel, Bro Nantcyll, Pant-glas, Garndolbenmaen, Gwynedd, LL51 9DJ**

**Yr oriau agor presennol**

| | |
|---|---|
| Mercher | **09:00 – 09:45** |

**Yr oriau agor newydd**

| | |
|---|---|
| Mercher | **11:30 – 12:15** |
| Gwener | **10:15 – 11:00** |

**Manylion y newidiadau i'r Gwasanaethau Symudol presennol: Clynnog Fawr**

**Gwasanaeth Symudol Clynnog Fawr, Clynnog Fawr, Caernarfon, Gwynedd, LL54 5PB**

**Yr oriau agor presennol**

| | |
|---|---|
| Llun | **11:00 – 11:45** |
| Iau | **10:15 – 11:00** |

**Yr oriau agor newydd**

| | |
|---|---|
| Mawrth | **10:15 – 11:00** |
| Iau | **15:00 – 15:45** |
| Gwener | **14:00 – 15:00** |

**Manylion y newidiadau i'r Gwasanaethau Symudol presennol: Aber-erch**

**Gwasanaeth Symudol Aber-erch, Heol Aber-erch, Pwllheli Gwynedd, LL53 5LS**

**Yr oriau agor presennol**

| | |
|---|---|
| Llun | **16:00 – 17:00** |
| Iau | **15:00 – 15:45** |

**Yr oriau agor newydd**

| | |
|---|---|
| Mawrth | **16:15 – 17:00** |
| Iau | **10:10 – 10:55** |

**Manylion y newidiadau i'r Gwasanaethau Symudol presennol: Minffordd**

**Gwasanaeth Symudol Minffordd, Minffordd, Penrhyndeudraeth, Gwynedd, LL48 6HG**

**Yr oriau agor presennol**

| | |
|---|---|
| Mawrth | **16:00 – 17:00** |
| Gwener | **16:00 – 17:00** |

**Yr oriau agor newydd**

| | |
|---|---|
| Llun | **15:15 – 16:00** |
| Mercher | **09:00 – 09:45** |

**Manylion y newidiadau i'r Gwasanaethau Symudol presennol: Borth-y-gest**

**Gwasanaeth Symudol Borth-y-gest, Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9UB**

**Yr oriau agor presennol**

| | |
|---|---|
| Mawrth | **11:00 – 11:45** |
| Gwener | **10:30 – 11:30** |

**Yr oriau agor newydd**

| | |
|---|---|
| Llun | **16:15 – 17:00** |
| Mercher | **10:00 – 11:00** |
| Gwener | **09:00 – 09:45** |

**Manylion y newidiadau i'r Gwasanaethau Symudol presennol: Nasareth**

**Gwasanaeth Symudol Nasareth, Nasareth, Caernarfon, Gwynedd, LL54 6DW**

**Yr oriau agor presennol**

| | |
|---|---|
| Mercher | **10:00 – 11:00** |

**Yr oriau agor newydd**

| | |
|---|---|
| Mercher | **12:25 – 13:10** |

**Manylion y newidiadau i'r Gwasanaethau Symudol presennol: Llanfrothen**

**Gwasanaeth Symudol Llanfrothen , Y tu allan i Siop Y Pentref, Llanfrothen, Penrhyndeudraeth, Gwynedd, LL48 6AX**

**Yr oriau agor presennol**

| | |
|---|---|
| Mawrth | **12:30 – 13:15** |
| Gwener | **11:45 – 12:30** |

**Yr oriau agor newydd**

| | |
|---|---|
| Llun | **11:00 – 11:45** |

**Manylion y newidiadau i'r Gwasanaethau Symudol presennol: Garndolbenmaen**

**Gwasanaeth Symudol Garndolbenmaen , Y tu allan i Neuadd y Pentref Garndolbenmaen, Garndolbenmaen, Gwynedd, LL51 9TX**

**Yr oriau agor presennol**

| | |
|---|---|
| Mawrth | **09:00 – 09:45** |
| Gwener | **09:00 – 10:00** |

**Yr oriau agor newydd**

| | |
|---|---|
| Llun | **10:00 – 10:45** |

**Manylion y newidiadau i'r Gwasanaethau Symudol presennol: Llanllyfni**

**Gwasanaeth Symudol Llanllyfni, Neuadd Goffa Llanllyfni, Llanllyfni, Caernarfon, Gwynedd, LL54 6SG**

**Yr oriau agor presennol**

| | |
|---|---|
| Llun | **09:00 – 09:45** |
| Mercher | **11:15 – 12:00** |

**Yr oriau agor newydd**

| | |
|---|---|
| Mercher | **13:45 – 14:30** |

**Manylion y newidiadau i'r Gwasanaethau Symudol presennol: Y Fron**

**Gwasanaeth Symudol Y Fron, Canolfan Y Fron, Y Fron, Caernarfon, Gwynedd, LL54 7BB**

**Yr oriau agor presennol**

| | |
|---|---|
| Mercher | **14:00 – 14:45** |

**Yr oriau agor newydd**

| | |
|---|---|
| Gwener | **11:25 – 12:10** |

**Manylion y newidiadau i'r Gwasanaethau Symudol presennol: Rhosgadfan**

**Gwasanaeth Symudol Rhosgadfan, Y tu allan i Gapel Rhosgadfan, Rhosgadfan, Caernarfon, Gwynedd, LL54 7ET**

**Yr oriau agor presennol**

| | |
|---|---|
| Mercher | 15:00 – 15:45 |

**Yr oriau agor newydd**

| | |
|---|---|
| Gwener | **12:25 – 13:10** |

**Manylion y newidiadau i'r Gwasanaethau Symudol presennol: Llangybi**

**Gwasanaeth Symudol Llangybi, Cilfan Lôn Troed-y-garn, Llangybi, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6DQ**

**Yr oriau agor presennol**

| | |
|---|---|
| Iau | **16:00 – 17:00** |

**Yr oriau agor newydd**

| | |
|---|---|
| Iau | **09:00 – 09:45** |

**Manylion y newidiadau i'r Gwasanaethau Symudol presennol: Edern**

**Gwasanaeth Symudol Edern, Lôn Gerddi, Edern, Pwllheli, Gwynedd, LL53 8YR**

**Yr oriau agor presennol**

| | |
|---|---|
| Iau | **12:45 – 13:45** |

**Yr oriau agor newydd**

| | |
|---|---|
| Mawrth | **14:00 – 14:45** |

**Manylion y newidiadau i'r Gwasanaethau Symudol presennol: Talsarnau**

**Gwasanaeth Allgymorth Talsarnau, Neuadd y Pentref Talsarnau, Talsarnau, Gwynedd, LL47 6TA**

**Yr oriau agor presennol**

| | |
|---|---|
| Mawrth | **10:00 – 12:00** |
| Iau | **10:00 – 12:30** |

**Yr oriau agor newydd**

| | |
|---|---|
| Mawrth | **09:15 – 12:45** |
| Iau | **09:45 – 11:45** |

**Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned ynghylch newidiadau i rwydwaith Swyddfa'r Post**

Rydym wedi ymrwymo i ymgysylltu â'n cwsmeriaid a'u cynrychiolwyr ac i'w cefnogi wrth i ni wneud newidiadau i rwydwaith Swyddfa'r Post. Dilynir yr egwyddorion a ganlyn wrth gyfathrebu am newidiadau i'ch cangen Swyddfa'r Post leol.

Byddwn yn **<u>Hysbysu</u>** – pan fyddwn yn rhoi gwybod i gwsmeriaid am newidiadau ynghylch:

- Oriau Agor
- Cau dros dro[1]/ ymyriad dros dro i wasanaeth
- Ailagor cangen a gaewyd dros dro yn yr un safle
- Agor cangen newydd nad yw'n ymwneud â changen a gaewyd yn flaenorol
- Lleoliad yn cael ei ddefnyddio gan Swyddfa Bost Symudol mewn cymuned.

Byddwn yn gosod poster yn y gangen (neu gerllaw os yw hynny'n priodol) er mwyn hysbysu cwsmeriaid am y newidiadau uchod, gan roi pedair wythnos o rybudd. Pan nad oes modd rhoi pedair wythnos o rybudd, byddwn yn rhoi rhybudd cyn gynted ag y gallwn. Ar gyfer pob cau dros dro, byddwn yn cynnwys manylion am y Swyddfeydd Post eraill agosaf a'n llinell gymorth / ffôn testun i gwsmeriaid.

**Byddwn yn <u>Ymgysylltu</u> – pan fyddwn yn ceisio adborth am benderfyniad a wnaed ynghylch:**

- Ailagor cangen a gaewyd dros dro mewn lleoliad newydd (os yw cangen wedi bod ar gau am fwy na thri mis)
- Masnachfreintio cangen â Rheolaeth-Uniongyrchol yn ei safle cyfredol.

Er y gwnaed y penderfyniad i fwrw ymlaen, byddwn yn croesawu awgrymiadau ynghylch agweddau penodol ar y newid, megis trefniadau mynediad a'r dyluniad mewnol. Byddwn yn rhoi pedair wythnos o rybudd neu, os yw amgylchiadau esgusodol yn atal hyn, byddwn yn rhoi cymaint o rybudd â phosibl.

Yn ystod y cyfnod hwn byddwn yn gosod poster yn y gangen ac yn darparu gwybodaeth ar-lein. Byddwn yn cysylltu â chynrychiolwyr etholedig lleol[2], y Cyrff Eirioli Defnyddwyr ac elusennau dewisol[3], i roi gwybodaeth glir am unrhyw newidiadau i wasanaethau neu drefniadau ynghylch mynediad i'r gangen. Byddwn yn gofyn i gynrychiolwyr etholedig lleol rannu gwybodaeth trwy gyfryngau cymunedol eraill (megis hysbysfyrddau, elusennau lleol, cylchgronau, meddygfeydd, etc.). Byddwn yn cyhoeddi canlyniad yr ymgysylltiad ar-lein ac yn y gangen, gan roi crynodeb o'r materion allweddol a godwyd, ynghyd ag ymateb i bob un ac unrhyw newidiadau a wnaed i'n cynlluniau gwreiddiol.

Byddwn yn **<u>Ymgynghori</u>** – pan fyddwn yn chwilio am ymateb i argymhellion cyn gwneud penderfyniad ynghylch:

- Cau cangen Swyddfa'r Post[4] yn barhaol
- Adleoli cangen Swyddfa'r Post yn barhaol (gan gynnwys masnachfreintio cangen â Rheolaeth-Uniongyrchol i safle newydd).

Byddwn yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus lleol dros gyfnod o chwe wythnos[5] er mwyn rhoi gwybod i gynrychiolwyr etholedig lleol, Cyrff Eirioli Defnyddwyr ac elusennau dewisol am yr argymhelliad. Bydd yr wybodaeth hon ar gael hefyd ar-lein ac ar gyfer cangen â Rheolaeth Uniongyrchol cyflwynir datganiad newyddion i'r cyfryngau lleol. Byddwn yn gofyn i gynrychiolwyr etholedig lleol rannu gwybodaeth trwy gyfryngau cymunedol eraill (megis hysbysfyrddau, elusennau lleol, cylchgronau, meddygfeydd, etc.).

Bydd yr ymgynghoriad yn golygu gofyn cwestiynau penodol pan fyddwn yn dymuno cael adborth ynghylch mynediad i wasanaethau Swyddfa'r Post a bydd yn cadarnhau dyddiad y newid os taw'r penderfyniad yw i fwrw ymlaen.

Byddwn yn rhoi gwybodaeth glir am unrhyw newidiadau i wasanaethau yn ogystal â mynediad i'r gangen newydd a'r tu mewn.

Rydym yn croesawu pob adborth ac mae'r holl ffactorau isod yn cael eu hystyried wrth i ni wneud ein penderfyniad; disgwylir y gwneir y penderfyniad hwnnw o fewn pedair wythnos i ddiwedd yr ymgynghoriad:

- Mynediad cwsmeriaid i mewn i a'r tu mewn i'r gangen /canghennau newydd neu amgen, gydag ystyriaeth benodol i ddefnyddwyr sydd yn agored i niwed
- Unrhyw faterion cymunedol lleol a allai gael eu heffeithio gan yr argymhelliad neu ddylanwadu arno.

Ar ddiwedd y broses ymgynghorol byddwn yn ysgrifennu at gynrychiolwyr etholedig lleol, Cyrff Eirioli Defnyddwyr ac ymatebwyr i'r ymgynghoriad (os yw hynny'n ymarferol) er mwyn cadarnhau ein penderfyniad a rhoi crynodeb o'r materion allweddol a godwyd, ynghyd ag ymateb clir i bob un. Bydd yr wybodaeth ar gael ar-lein ac yn y gangen (pan fo hynny'n bosibl).

**Cafodd yr Egwyddorion hyn eu cytuno â Chyngor ar Bopeth, Cyngor ar Bopeth yr Alban a Chyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon; cyrff gwarchod statudol annibynnol y defnyddwyr.**

Beth i'w wneud os ydych yn teimlo na ddilynwyd yr Egwyddorion hyn:

Cysylltwch â ni fel y gallwn ymchwilio i'ch cwyn. Yn ein hymateb byddwn yn esbonio a ydym yn credu ein bod wedi dilyn ein Hegwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned a chewch y manylion cyswllt ar gyfer y corff gwarchod defnyddwyr priodol (Cyngor ar Bopeth, Cyngor ar Bopeth yr Alban neu Gyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon) os nad ydych yn fodlon â'n hymateb. Bydd y corff gwarchod yn gwneud asesiad annibynnol i ganfod a ydym wedi dilyn y broses Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned (yn hytrach na'r penderfyniad ei hun) ac yn argymell unrhyw weithredu ynghylch y gŵyn).

**postofficeviews.co.uk.**
**comments@postoffice.co.uk**
**FREEPOST Your Comments**
**Ffoniwch: 03452 66 01 15**
**Ffôn Testun: 03457 22 33 55**

[1] Rhoddwn ddiweddariad i gynrychiolwyr etholedig lleol os nad yw statws y gangen sydd ar gau dros dro wedi newid ar ôl 12 mis.

[2] Mae cynrychiolwyr etholedig lleol yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r Aelod Seneddol, Senedd yr Alban, Senedd Cymru, neu Gynulliad Gogledd Iwerddon, Prif Weithredwr yr Awdurdod Lleol, Cynghorwyr Ward, Y Cyngor Cymuned neu'r Cyngor Plwyf.

[3] Yr elusennau dethol yw Cyngor ar Bopeth, Age UK, Disability Action Gogledd Iwerddon a Rhwydwaith Cymunedau Gwledig Gogledd Iwerddon. Anogir y sawl y cyfeirir atynt yn 2 a 3 uchod i rannu pob gwybodaeth â grwpiau a sefydliadau lleol a allai fod a diddordeb gweithredol mewn newidiadau i'w Swyddfa Bost leol.

[4] Gall fod nifer fach o achosion pan, oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i'n rheolaeth, nad oes gennym unrhyw ddewis ond i gau cangen mewn lleoliad penodol yn barhaol. Mewn achosion o'r fath byddwn yn ceisio adborth ynghylch darpariaeth Swyddfa'r Post amgen yn yr ardal.

[5] Os yw'r ymgynghoriad yn cynnwys mwy na phedair wythnos ym mis Gorffennaf yn Yr Alban a Gogledd Iwerddon neu fwy na phedair wythnos ym mis Awst yng Nghymru a Lloegr, byddwn yn estyn y cyfnod am un wythnos galendr. Ni fyddwn yn dechrau unrhyw ymgynghoriadau cyhoeddus lleol yn ystod y bythefnos sydd yn cynnwys gwyliau banc y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd.